

Mae rhai o ddisgwyliadau'r FfLIRh ar gyfer Blwyddyn 6 yn cynnwys:

Defnyddio Sgiliau Rhif

- Darllen ac ysgrifennu rhifau hyd at 1 miliwn a rhifau i 3 lle degol.
- Defnyddio strategaethau meddwl i alw tablau llusoi i gof hyd at 10 x 10 a'u defnyddio i ddatrys problemau rhannu.
- Defnyddio dealltwriaeth o gywerthoedd ffracsiynau, degolion a chanrannau syml.
- Cyfrif symiau canrannol yn seiliedig ar 10%.
- Adio a thynnu rhifau drwy ddefnyddio rhifau cyfan a degolion.
- Lluosi rhifau 2 a 3 digid â rhif 2 ddigid.
- Rhannu rhifau 3 digid â rhif 2 ddigid.
- Amcangyfrif drwy dalgrynnu i'r 10, y 100, y 1 000 neu'r rhif cyfan agosaf.
- Cymharu prisiau a deall beth sy'n cynnig y gwerth gorau am arian.

Defnyddio Sgiliau Mesur

- Darllen a dehongli cloriannau neu raniadau ar amrywiaeth o offer mesur.
- Amseru digwyddiadau mewn munudau ac eiliadau i'r degfed eiliad agosaf.
- Defnyddio a dehongli amserlenni a rhestrau.
- Amcangyfrif hyd taith o ran amser.
- Mesur a chofnodi'r tymheredd gan gynnwys darlenniadau positif a negatif a chyfrifo'r gwahaniaeth rhwng gwahanol dymereddau.

Defnyddio Sgiliau Data

- Echdynnu a dehongli gwybodaeth o ddiagramau, amserlenni a siartiau.
- Cyflwyno data drwy ddefnyddio rhestrau, siartiau cyfrif, diagramau, siartiau bar, graffiau llinell ac ati.

Datblygu Ymresymu Rhifyddol

- Trosglwyddo sgiliau mathemategol i amrywiaeth o gyd-destunau a sefyllfaoedd bob dydd.
- Dewis mathemateg a thechnegau priodol i'w defnyddio.
- Dewis a defnyddio offer ac unedau mesur addas.
- Egluro canlyniadau a gweithdrefnau'n glir drwy ddefnyddio ieithwedd fathemategol.

Rhoi cymorth i blant ym Blwyddyn 6

Taflen i rieni
Helpu eich plentyn gyda rhifedd

Beth yw'r gweddill?

Gwnewch grid 6 x 6 fel hyn.

Dewiswch dabl 7, 8 neu 9.

Pob un yn ei dro.

Rholiwch ddis.

Dewiswch rif ar y grid, e.e. 59. Rhannwch ef

â rhif y tabl, e.e. 7. Os yw gweddill y sym

$59 \div 7$ yr un fath â'r rhif ar y dis, cewch

roi botwm neu ddarn arian dros y rhif ar y bwrdd.

Y cyntaf i gael pedwar o'u botymau mewn llinell syth sy'n ennill!

82	33	60	11	73	22
65	12	74	28	93	51
37	94	57	13	66	38
19	67	76	41	75	85
86	29	68	58	20	46
50	69	30	78	59	10

Dyblu a threblu

Rholiwch ddau ddis.

Lluoswch y ddau rif i gael eich sgôr.

Rholiwch un o'r disiau eto. Os yw'n eilrif, dyblwch

eich sgôr. Os yw'n odrif, treblwch eich sgôr.

Cadwch gyfrif o'ch sgoriau.

Y cyntaf i gael dros 301 sy'n ennill.



Hoff fwyd

Gofynnwch i'ch plentyn beth yw cost hoff eitem o fwyd.

Gofynnwch iddo/iddi weithio allan faint fyddai saith ohony'n nhw'n ei gostio, neu wyth, neu naw.

Faint o newid fyddai o £50?

Ailadroddwch hyn gyda'i gas/chas fwyd.

Beth yw'r gwahaniaeth rhwng cost y ddau?

Ryseitiau

Dewch o hyd i rysâit ar gyfer pedwar person a'i ailysgrifennu ar gyfer wyth person, e.e.

Pedwar person:	Wyth person:
125g blawd	250g blawd
50g menynd	100g menynd
75g siwgr	150g siwgr
30ml triog	60ml triog
1 llwy de o sinsir	2 llwy de o sinsir

Allwch chi ei ailysgrifennu ar gyfer tri pherson? Neu bum person?

Tri mewn rhes

Ar gyfer y gêm hon, bydd angen cyfrifiannell.

Tynnwch linell fel hon:



Yn eich tro, dewiswch ffracsiwn, e.e. $2/5$.

Defnyddiwch y gyfrifiannell i'w drosi'n ddegolyn (h.y. $2 \div 5 = 0.4$) a nodwch lythrennau blaen eich enw ar y man hwn ar y llinell.

Nod y gêm yw cael tair croes mewn rhes heb i unrhyw groes gan un o'r chwaraewyr eraill ddod rhyngddyn nhw.

Mae rhai ffracsiynau'n fwy anodd eu nodi nag eraill, e.e. nawfedau.

Pedwar

Defnyddiwch bedwar 4 bob tro.

Gallwch chi eu hadio, eu tynnu, eu lluosu neu eu rhannu.

Ydych chi'n gallu gwneud pob rhif o 1 i 100?

Dyma rai ffyrdd o wneud y ddau rif cyntaf.

$$1 = (4 + 4)/(4 + 4)$$

$$2 = 4/4 + 4/4$$

Gwyllo'r teledu

Gofynnwch i'ch plentyn gadw cofnod o faint o amser mae e/hi'n gwyllo'r teledu bob diwrnod am wythnos. Yna gofynnwch iddo/iddi wneud hyn.

Gweithio allan gyfanswm yr amser gwyllo am yr wythnos.

Gweithio allan gyfartaledd yr amser gwyllo am ddiwrnod (h.y. cyfanswm yr amser wedi'i rannu â 7).

Yn lle gwyllo'r teledu, gallech ofyn iddo/iddi gadw cofnod o'r amser a dreuliyd yn bwyta prydau, neu'n chwarae'r tu allan, neu unrhyw beth arall mae'n ei wneud bob dydd. Yna gweithiwch allan y cyfartaledd dyddiol.

Bargeinion

Pan fyddwch yn siopa, neu'n gweld siop sydd â sêl, gofynnwch i'ch plentyn weithio allan faint fyddai rhai eitemau'n ei gostio os ydych yn: arbed 50%, arbed 25%, arbed 10%, arbed 5%.

Gofynnwch i'ch plentyn esbonio sut gweithiodd e/hi hyn allan.

Miliwn o bunnoedd

Tybiwch fod gennych chi £1 000 000 i'w wario neu ei roi.

Cynlluniwch gyda'ch plentyn beth wnewch chi gyda'r arian, i'r geiniog olaf un.